# Llais yr Andes

Pris: $15

*Papur Bro Gaeaf (Trevelin ac Esquel)* *Medi 2015*

## Dathlu Canmlwyddiant a Hanner y Wladfa yn yr Andes

Ymysg nifer o weithgareddau braf oedd gweld tyrfa luosog wedi ymgynnull wrth gofeb y Mimosa yn Nhrevelin ar yr 28 ain o Orffennaf, diwrnod arbennig iawn yn ein hanes a phawb yn clodfori a diolch i´n cyndadau o Gymru am eu dewrder. Rhaid dweud roedd gweld y dawnswyr lleiaf yn ddiddanu pawb ar y sgwâr o dan arweiniad Jessica Jones yn fendigedig. Parhau wnaeth y dathliadau gan fod seremoni dadorchuddio Carreg Gefeillio Trevelin ac Aberteifi yr un prynhawn o flaen y Felin fawr. Roedd pawb yn hynod falch fod prifweinidog Cymru Carwyn Jones yng nghwmni Martin Buzzi wedi ymweld â ni yn yr Andes. Cynhaliwyd cyngerdd Gŵyl y Glaniad yn y Salon Central ar y 31ain o Orffennaf. Ar yr un noson cafwyd Swper Gŵyl y Glaniad yn Esquel. Roedd y lle yn orlawn ac yn wir llawer o adloniant addas at ddant pawb. Gwledda a chymdeithasu a gweld amrywiaeth o wisgoedd yn cael eu harddangos a gwrando ar gyflwyniadau gan ddisgynyddion y Cymry. Diolch i Joyce Powell am baratoi sgript arbennig wrth iddi hithau a Sylvia Williams gyflwyno pawb. Cyflwynwyd tystysgrifau i´r disgynyddion ifancaf. Roedd yn amser emosiynol iawn a gwyddom y bydd nifer o rhain yma eto yn dathlu mewn hanner can mlynedd adeg Dathlu Dauganmlwyddiant y Wladfa Gymreig. Diolch am y croeso.







Yn y rhifyn hwn:

Atgofion am y Canmlwyddiant - Tudalen 7

O'r ysgolion - tudalen 9





Eluned Jones

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at Eluned - elunedjones67@hotmail.co.uk.  Diolch yn fawr.

## Gair gan y golygydd

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r ail rifyn. Ymddiheuriaf am yr oedi ond bu´n amser prysur ar bawb i gyflwyno erthyglau.  Diolch i bawb am eich cyfraniadau diddorol. Hoffwn  ddiolch i Iwan Madog am ei barodrwydd i´m harwain drwy´r broses o ddefnyddio´r termau Sbaeneg ar gyfrifiadur y Ganolfan a sicrhau fod ein ffrindiau yng Nghymru yn medru cael copi. Rwyf wrthi´n casglu erthyglau ar gyfer y rhifyn nesaf yn barod.   Diolch i bawb.

# *Dawnswyr Cwm Hyfryd*









*Dechreuais gyda´r grŵp dawnsio yn 2008. Roedd y plant yn fach. Cychwynom drwy gymryd rhan mewn eisteddfodau a chyngherddau ond erbyn hyn rydym yn mwynhau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Eleni buom yn brysur iawn. Ym mis Mawrth yn yr Encuentro Celtaidd, ac wedyn yn y ffair Pasg yn Nhrevelin. Mis Ebrill cawsom ddawnsio yn Ysgol 18, Cyngerdd ac Eisteddfod Trevelin hefyd. Rydym yn falch o fod wedi llwyddo a chael ein dewis yn y Culturales Evita yn Esquel  i fynd ymlaen i ddawnsio yn y rhan nesaf yn Rawson  diwedd Medi.  Cafodd y plant bach a´r oedolion ddawnsio yn y ffair Aeaf yn Nhrevelin a chael llawer o hwyl. Mae´n flwyddyn y Canmlwyddiant a Hanner felly roedd  yn hyfryd cael dawnsio yn yr Acto ar yr 28ain o Orffennaf.  Ymysg llawer o weithgareddau eraill megis Festival 150 a chyngerdd y dathlu roedd yn fendigedig cael dawnsio a chlocsio gyda Chast y ´Mimosa´ yn y noson  gymdeithasol yn Esquel. Yn ddiweddar chawsom amser da yn Dawnsio yn Eisteddfod Ysgol ´Puerta del Sol´. Rydym wedi dawnsio mewn priodas.  Rydym wedi croesawu ymwelwyr o Gymru  sef Leni Hatcher oedd yn dysgu tipyn o glocsio a Suzanne Condon a ddaeth i´r dosbarthiadau dawnsio i hyfforddi. Trefnais Dwmpath Menter gyda Steffan Bryn a Isabel sef myfyrwyr Santander o Goleg Prifysgol Caerdydd. Diolch yn fawr iddynt.  Cofiwch mae dawnsio yn hwyl ac mae croeso i bawb ymuno â ni ar  nos Fawrth am 8 o´r gloch yn neuadd y dref gyda´r oedolion a bob prynhawn Gwener yn Ysgol y Felin  sef y plant lleiaf o 5 oed ymlaen.*





*Jessica Jones*

*Ers  ysgrifennu´r  adroddiad  uchod mae´n dda dweud fod Dawnswyr Cwm Hyfryd wedi cael amser ardderchog yn Rawson. Profiad arall  y medrant drysori. Llongyfarchiadau gwresog.*

**Llongyfarchiadau**



Ganwyd Llewelyn Owen Grandis-Evans am 21:52 ar y 5ed o Fehefin yn Clínica Esquel yn pwyso 3.250Kg. Mae Llewelyn yn blentyn cyntaf-anedig i Eluned Owena ac Isaías Grandis, Trevelin ac yn ŵyr i Eirlys Mair (Owen) a Mansel Lewis Evans, Llanddarog, Caerfyrddin a Liliana Elvira (de Celis) a José Alberto Grandis, Trevelin. Dymuna Eluned ac Isaías ddiolch i bawb am eu negeseuon o longyfarch ar yr achlysur hapus hwn.



## Genedigaethau

Cafodd Arwen Leonor Rodriguez Weglin ei geni ar y 5ed o Awst am 9:27 y bore yn Ysbyty Esquel, Cwm Hyfryd yn pwyso 2.600Kg. Dymuna´r rhieni Susana a Carlos aí brawd mawr Aaron diolch am yr holl gyfarchion.

Newyddion.

Hyfryd clywed fod Grisel Roberts Pasquini wedi treulio cyfnod arbennig yn y Brifysgol yn Aberystwyth dros wyliau´r Gaeaf ond Gwyliau Haf Cymru wrth gwrs. Gwelwch ei llun ar dudalen 6 yn y derbyniad gyda Hazel Charles Evans. Croeso adre i Grisel.

Cafodd Isaias Grandis y fraint o Gadeirio´r Sesiwn Prynhawn adeg Seremoni´r Cadeirio yn Eisteddfod y Bobl Ifanc eleni.

Dymuniadau Gorau i´r teulu Petersen Jones sydd newydd agor Siop Fara ´Los Petersen´ yn Nhrevelin.

Mwy o newyddion ar dudalen 7. Llongyfarchiadau gwresog i bawb.

## Newyddion Jam Llaeth

Rydym ein dau wedi bod yn gwneud y rhaglen bob nos Lun ers pum mis bellach am 22.00 ar radio Pocas Nueces 106.5. Erbyn hyn rydym mewn stiwdio newydd pen arall i Drevelin yn edrych uwchben y brif stryd, ac yn mwynhau gweld pwy sydd yn pasio yn ystod y rhaglen.

Gwneud rhaglen hanner awr oedd ein bwriad i ddechrau, ond erbyn hyn mae’r rhaglen yn para bron i awr. Bob wythnos rydym yn gwneud rhywbeth gwahanol, trafod newyddion, chwarae gêmau, gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a phob tro mae llawer o chwerthin a mwynhau. Dechrau mis Mai roeddem yn lwcus i gael Elin Fflur yn y stiwdio. Yn anffodus nid oedd Elin yn gallu siarad yn fyw ar y rhaglen, felly gwnaethom recordio cyfweliad o flaen llaw.

Bydd CD Jam Llaeth ar gael cyn bo hir, a fydd yn llawn o ganeuon Cymraeg, felly cofiwch archebu eich copi. Cofiwch fod posib gwrando ar y rhaglen eto ar y we os ydych yn byw tu allan i Drevelin ar www.soundcloud.com/jamllaeth

Sara ac Iwan





# Neges Arbennig!



"Dyma bregeth wnaethon ni baratoi ar gyfer oedfa ym mis Tachwedd 2014 ar ymweliad Huw Edwards gyda chapel Bethel Cwm Hyfryd yn llawn. Wedyn cafodd ei rannu yng nghapel Seion Esquel. Ond dydy'r neges hon ddim wedi stopio yna, aeth yr holl ffordd i'r Dyffryn a chael ei phregethu unwaith yn rhagor gan rywun arall, Ann-Marie Lewis yng nghapel Glan Alaw Dolavon ym mis Awst 2015..."

Pregeth:
"Peidiwch casglu trysorau i chi'ch hunain yn y byd yma. Mae gwyfyn a rhwd yn gallu eu difetha, ac mae lladron yn gallu dod â'u dwyn. Casglwch drysorau i chi'ch hunain yn y nefoedd — all gwyfyn a rhwd ddifetha dim byd yno, a does dim lladron yno i ddwyn dim byd".Mathew 6:19-20
Dyn ni'n gwybod yn iawn y daethon ni i'r byd yma heb ddim byd a byddwn ni heb ddim byd yn gadael y byd yma.
Er ein bod ni'n casglu pethau, allwn ni ddim mynd â dim byd gyda ni. Dydy'r byd yma ddim yn rhoi trysorau tragwyddol i ni.
Oherwydd hyn, mae Duw yn ein cynghori i beidio â chasglu trysorau yn y byd yma, ond i ni i gasglu trysor yn y nefoedd lle na fyddan nhw'n cael eu difetha, a lle na fydd lladron yn dod â'u dwyn.
Ond sut allwn ni gasglu trysor yn y nefoedd? Mae'r ateb yn hawdd, derbyn gair Duw fel ein torch a gwneud beth mae'r Arglwydd yn ein dysgu i wneud. Fel 'na, byddwn ni'n gwneud trysorau yn y nefoedd. Cofiwch beth mae'n dweud yn adnod 21 Mathew 6 – "Oherwydd lle mae dy drysor, yno hefyd y bydd dy galon".



A beth yw'n trysor ni? Y cartre, y teulu, darn o dir, lle arbennig, y cyfri banc, y gwaith, gwraig, gŵr, plentyn, car??? Cofiwch, lle mae'n trysor ni yno mae ein calon ni a byddwn yn rhoi'n hamser a phopeth i'r peth neu'r pethau hynny.
A beth os taw Iesu ydy'n trysor, ein harwr, yr enghraifft i ddilyn? Yn yr achos hwn, byddai ein calon yn ei deyrnas O a fydd o ddim rhagor yn perthyn i'r byd yma. 'Baswn yn gallu dweud ein bod ni yn y byd yma dros dro ac yn nawr yn perthyn i deyrnas Iesu.
Dw i wir yn credu bod llawer o'r Cymry cyntaf oedd wedi gallu gadael eu teuluoedd, eu ffermydd, eu bywydau yng Nghymru wedi gallu dod yma i Batagonia oherwydd bod eu calonnau gyda'r Iesu ac yn perthyn i deyrnas Duw, a'u bod yn teimlo eu bod yma dros dro a ddim yn perthyn i'r byd yma. A dyna sut 'naethon nhw allu aros yng nghanol yr anialwch a throi yr anialwch yn ffrwythlon.
Ac wrth i ni fynd yn ôl i edrych ar beth ddwedais i'n gynharach am "lle mae'n trysor ni mae ein calon ni", beth ydy ystyr 'calon' yma? Mae 'calon' yn gyfystyr â bywyd, fy nghalon, fy mywyd.
Yn Ioan 1:12-13 mae'n dweud:



"Ond cafodd pawb wnaeth ei dderbyn, (sef y rhai sy'n credu ynddo) hawl i ddod yn blant Duw. Dim am fod ganddyn nhw waed Iddewig; Duw sydd wedi eu gwneud nhw'n blant iddo'i hun!
Felly mae pawb sy'n derbyn Iesu, sy'n credu ynddo Fo ac yn ei dderbyn yn eu calonnau, yn eu bywydau, â'r hawl i gael eu galw yn blentyn i Dduw. 'Dyn ni i gyd yn greaduriaid Duw, hynny yw wedi'n creu gan Dduw ond plant Duw ydy'r rhai sydd ag Iesu'n eu calonnau, neu mewn geiriau eraill, y rhai sy'n derbyn Iesu yn eu bywydau, y rhai sy'n credu ynddo fo ac yn dilyn gair Duw.
A be sy'n bod efo'r pethau eraill? Hynny yw, os mae fy nghalon yn Iesu a'i deyrnas, fydda i ddim yn rhoi amser i fy nhŷ, teulu, gwaith ayb.? Ar ddiwedd pennod 6 Mathew, mae'n dweud "Gwnewch yn siŵr mai'r flaenoriaeth i chi ydy ymostwng i'w deyrnasiad o a gwneud be sy'n iawn yn ei olwg, ac wedyn cewch y pethau eraill yma i gyd".
Roedd Noa'n credu ynddo Fo, credu beth oedd Duw yn ei ddweud ac yn dilyn Fo er roedd pawb yn meddwl roedd Noa yn wallgof. A fel hyn naeth Dduw achub Noa ond dim y rhai oedd yn chwerthin a gwrthod gair yr Arglwydd.
Pan taw'n trysor ydy Iesu, ein harwr a'r esiampl i ddilyn, a phan taw ei air yw'r lamp sy'n ein galluogi i gerdded yn y tywyllwch, bydd ein calon yn perthyn iddo, bydd ein bywydau yn perthyn i'r Deyrnas Dragwyddol a bydd dim byd i golli achos yma dros dro yr ydym ni ar y ddaear hon. Bydd Duw gyda ni, bydd yn bendithio´r rhai sydd o´n cwmpas a bydd yn rhoi popeth arall i ni. Amen.

Isaias ac Eluned Grandis, Trevelin

## Digwyddiadur:

Bydd y gwasanaeth nesaf yng nghapel Bethel Trevelin ar y 25ain o Hydref am 6 o´r gloch.

Cadwch lygaid allan ar dudalen Menter Patagonia am ddigwyddiadau'r wythnosau nesaf. Edrychwn ymlaen i groesawu Ieuenctid yr Urdd o´r 22ain tan y 26ain o Hydref.

Menter PATAGONIA



# Gair neu ddau o brifddinas Cymru Rhagfyr 2014



Helo bobl yr Andes! Gobeithio eich bod wedi mwynhau Eisteddfod y Wladfa a bod nifer ohonoch wedi dychwelyd hefo gwobrau! Mae hi'n Aeaf yma bellach tra dach chi draw yn mwynhau'r Haf! ond does dim lle gennym ni i gwyno gan i ni brofi Haf a Hydref dymunol a hyd yn hyn does dim eira a rhew wedi cyrraedd Caerdydd- dim ond glaw! Yn y Gogledd mae mynyddoedd Eryri eisoes yn wyn ond dim ond haen denau o eira a syrthiodd am y tro!

Yn ystod mis Tachwedd mae tím rygbi Cymru yn cael y fraint o chwarae yn erbyn gwledydd Awstralia, Fiji, Seland Newydd a De Affrig yn ein Stadiwm Genedlaethol yn y ddinas ac eisoes mae ein tím wedi wynebu Awstralia ac er mawr siom collwyd y dydd 27 - 33. Yn union ar ôl i mi wylio'r gêm ar ein sianel deledu Gymraeg dyma droi i sianel BBC 2 i wylio'r Alban yn chwarae yn erbyn yr Ariannin ac yn anffodus colli oedd hanes y Pumas hefyd 31 - 41!

Y Gleision ydy enw ein tim rygbi yng Nghaerdydd a'r tymor hwn mae Archentwr o'r enw Lucas Amorosino yn chwarae iddyn nhw ac yn cael hwyl arni. Tybed o ba ran o'r Ariannin y mae´n dod?

Enillwyd Cadair Eisteddfod y Wladfa gan Esyllt Lewis y Gaiman ond gynt o Ogledd Cymru. Mae hi'n briod â'r deintydd Cristian Lewis ac yn fam i Mabon Llywelyn ac Idris Llwyd. Hi ydy un o olygyddion papur " Y Drafod" hoffwn anfon fy nghofion ati hi a'i theulu ac i'w llongyfarch ar ei champ.

Mae hen edrych ymlaen rwan at 2015 pan fydd y Wladfa yn dathlu ei chant a hanner ers ei sefydlu nôl yn 1865 ac mae paratoadau eisoes ar y gweill i ddathlu'r achlysur yma yng Nghymru a thraw. Diau bydd llawer o fynd a dod rhwng Cymru a'r Wladfa yn ystod y dathliadau a braf fydd hynny er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhyngom.

Yn olaf y tro hwn tynnaf sylw at y ffaith fod Rene Griffiths gynt o'r Dyffryn a'r Andes newydd gyhoeddi ei hunangofiant ond yn anffodus mae'r gyfrol yn Saesneg a felly ychydig ohonoch draw fydd yn gallu ei ddarllen! Ond mae'r cynnwys yn ddifyr ond yn ddadleuol ar brydiau!

Dwy'i ddim yn siwr pryd caiff y Rhifyn hwn o "Lais yr Andes"weld golau dydd ond byddaf yn saff os dymunaf Blwyddyn Newydd i bawb a phob hwyl ar gyfer y dathliadau yn 2015.

Tan y tro nesaf Gwilym Roberts.

..

| | | | |
|---|---|---|---|
| holiadur | una encuesta | nofel | una novela |
| llythyr | una carta | erthygl | un articulo |
| adroddiad | un informe<br>un reportaje | rhestr | una lista |
| pennill | una estrofa | llythyren | una letra |
| pennod | un capitulo | brawddeg | una frase<br>una oracion |

# Trysor yn Wir!



Tua saith mlynedd yn ôl ces wahoddiad gan S4C i ymddangos ar raglen o'r enw 'Prynhawn Da' a gwŷs i fynd â thri pheth a ystyriwn yn drysorau gyda mi i'r siwdio deledu. Ychydig o rybudd a dderbyniais. Rhaid bod rhywun llawer iawn pwysicach na mi wedi methu â chadw at y trefniant a hynny ar y funud olaf! Doedd dim tamaid o ots gen i am hynny oherwydd pe bawn wedi cael tri mis o rybudd, byddwn yn ddiau wedi dewis yr un trysorau.

Petai cynhyrchydd y rhaglen wedi dweud wrthyf am sôn am drysorau yn gyffredinol byddwn yn sicr o fod wedi nodi pethau fel iechyd, cwmnïaeth a chyfeillgarwch ynghyd â'r ffaith fy mod wedi fy mreintio â golwg a chlyw a'r ddawn i greu. Pethau y byddwn ni i gyd yn eu cymryd mor ganiataol. Nodi wnaeth Mr. Cynhyrchydd, beth bynnag, fy mod i i sôn am dri gwrthrych.

Welsoch chi, bobol yr Andes, mo'r rhaglen honno, os na ddigwyddoch fod yng Nghymru ar y pryd, wrth gwrs, ond hwyrach eich bod wedi darllen am y trysorau hyn yn y llyfr a ysgrifennais y llynedd - cyfrol sy'n rhoi tipyn bach o hanes fy mywyd ac am fy mrwydr yn erbyn y cancr.

Y gwrthrych cyntaf a ddewisais oedd llyfr yn dwyn yr enw 'Storïau o Hanes Cymru' gan Moelona (awdures Teulu Bach Nantoer). Mae clawr y llyfr yn bell o fod yn ddeniadol, ond wrth i un droi ei dudalennau fe ddaw'r darllenydd o hyd i drysor. Ymdrinir ag arwyr y genedl rhwng y chweched ganrif O.C. a dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae modd i chithau fwynhau ei gynnwys gan i mi fynd ati i lungopïo rhannau helaeth ohono a'u trosglwyddo i ddisgyblion y dosbarthiadau gloywi yn Esquel ac yn Nhrevelin. Cofiwch roedd hynny ar ddiwedd y nawdegau! Holer y to hŷn!

Yr ail drysor oedd llythyr a dderbyniais gan wraig o'r enw Madam Tydfil. Ganddi hi y ces wersi llefaru pan oeddwn yn blentyn,ac yn blentyn swil ar hynny. Nid yn unig y ceir gair o ganmoliaeth yn y llythyr, ond hefyd cyfeiria hithau at wendid oedd gennyf wrth draddodi fy neges y dyddiau cynnar hynny, o bulpud capel Soar, Lllwynhendy - codi llais yn ormodol! Wrth gwrs roedd yn gapel anferth a dim meicroffon yn agos i'r lle. Gallwch ddarllen rhan o'i llythyr yn 'Siwrne 13' os gallwch ddod i ben â'r Saesneg! Derbyniais lawer cyngor gan y wraig hynaws hon a gwerthfawrogaf hynny hyd heddiw. Iddi hi y mae'r diolch os wyf yn llefaru'n glir a chywir!

Cwpan y B.B.C. oedd y trydydd trysor - cwpan a enillais wrth areithio dros y coleg lle digwyddwn fod yn fyfyrwraig. Un bychan ydyw ( dim tebyg i'r cwpanau a enillodd Ivor Hughes yn y Rural!) Ond mae wastad yn rhoi hyder i mi wrth syllu arno a chofio i mi guro pobol sy'n cael eu hystyried yn fawrion y genedl erbyn hyn!

Pe derbyniwn wahoddiad rywbryd eto i sôn am fy nhrysorau fe ychwanegwn un arall at y rhestr, sef eich papur bro chithau, LLAIS YR ANDES a welodd olau dydd yn ystod fy ail flwyddyn yn eich plith , ie ym 1998. Mae'n anodd credu y bydd y papur yn ddwy ar bymtheg oed eleni. Mae'r rhifyn cyntaf ar gael o hyd. Di-liw ei wedd ydoedd a hynny oherwydd diffyg adnoddau ar y pryd. Wedi'r cwbl gorfod i mi ail ysgrifennu popeth â'm llaw gan nad oedd na theipiadur na chyfrifiadur at fy ngwasanaeth! Fel y newidiodd pethau. Rhaid cyfaddef na chafodd y papur groeso breichiau agored gan bawb, chwaith.Hwyrach i rai mai ymgais oedd LLAIS YR ANDES i gystadlu â'r Drafod neu hyd yn oed i ddisodli papur y Wladfa. Dim o'r fath! A da heddiw yw gallu aralleirio'r cymal enwog o eiddo Dafydd Iwan - Er gwaetha pawb a phopeth, mae e yma o hyd!

Mae gen i le i ddiolch. Yn ystod fy nghyfnod innau dwy ddysgwraig fodlonodd gasglu deunydd ar gyfer y papur, sef Gladys Jones, Esquel a Sandra De Pol, Trevelin. Erbyn hyn mae'r ddwy ohonynt yn diwtoriaid Cymraeg, y naill yn Esquel a'r llall yng Nghaerdydd! Mae fy nyled yn fawr i Fabricio, mab Gladys, am ddod i'r adwy ac am ei barodrwydd yntau i osod y rhifynnau cyntaf ar ei gyfrifiadur. Heb gymorth Fabricio, yn hyn o beth, fyddai Llais yr Andes, hwyrach, heb gael ei gyhoeddi o gwbl!

Byddwn wedi hoffi gweld rhai siaradwyr Cymraeg yn ymddiddori yn y gwaith o olygu'r papur, ond yr athrawon a'r gweithwyr Menter sydd wedi ysgwyddo'r holl waith hyd yn hyn - rhai yn fwy na'i gilydd! Bu bron i'r papur ddiflannu'n llwyr ar un adeg a byddai hynny wedi bod yn golled i'r gymuned ac yn siom i minnau.

Gwelwyd y papur ar ei newydd wedd yn ystod y tair blynedd diwetha ac mae'n dda ei fod ar gael ar y we. Mae'r diolch pennaf yn mynd i Eluned Evans Grandis. Gwerthfawrogaf ei dyfalbarhad a'i hymroddiad diflino.
Diolch am yr amrywiaeth - yn erthyglau, hanesion, atgofion, argraffiadau, cynghorion, reseitiau a phosau ar gyfer y plant. Oes, mae rhywbeth at ddant pawb yn LLAIS YR ANDES.
Trysorwch ef!

Syrthiodd y fantell ar ysgwyddau Eluned arall erbyn hyn, sef Eluned Jones. Mawr yw ein diolch ni iddi hi am ymgymryd â'r gwaith golygyddol. Cawsom ragflas yn barod o'r wledd sydd i ddod.

Codaf fy ngwydryn a dymunaf hir oes i'r papur, i'w ddarllenwyr draw yn yr Andes ac yma yng Nghymru.

Hazel Charles Evans

# Atgofion am y Canmlwyddiant



**Roeddwn yn wyth oed yn y llun yma efo Erik fy mrawd Dad a Mam.´Ryda ni o flaen ein cartre,Pennant,a Chwm Hyfryd yn gefndir. Dyma ni´n cychwyn i un o ddathliadau a wnaed ym mis-Tachwedd 1965 i gofio can mlynedd Gŵyl y Glaniad. Dyna pryd ddaeth fy hen daid a´m nain ar y Mimosa sef Richard Jones Berwyn ag Elizabeth Prichard. Y diwrnod hwnnw roeddwn yn cychwyn i gyngerdd lle oedd Osian Ellis y telynor,ac eraill o´r Hen Wlad yn ein diddanu,dan arweiniad R Bryn Bryn Williams. Tynwyd y llun hwn gan John Roberts,Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol ar y pryd. Yr oedd yn aros efo ni yn ein cartre ac roedd gweddill o´r Pererinion yn aros mewn cartrefi Cymraeg eraill yn y Cwm. Efo fy modrybedd Mair ac Ann Griffiths ´roedd Elwyn Griffiths, cynyrchiolydd Cymry ar Wasgar,sef Golygydd y cylchgrawn (Yr) Enfys, yn aros. Ac roedd Tom Jones,Llanuwchlyn, aí wraig yn aros efo tad Ben Jones sef Mathew Jones aí wraig yn eu cartre yn Esquel. A Desmond Healy yn ymgartrefu efo Arthur Morgan aí wraig yn Esquel a Rachel Mary Davies a Mrs Edwards efo Alwen ac Anson Roberts,hefyd yn Esquel. Mae hanner can mlynedd arall wedi mynd ac ´ryda ni wedi dathlu unwaith eto. Roedd yn hyfryd cael mwynhau yn Eisteddfod Trevelin, croesawu llawer o ymwelwyr o Gymru gan gynnwys Theatr Clwyd a´r Urdd yn perfformio ´Mimosa´,Marc Rees a Roger Williams ´Galesa ´a ´150´ac yn awr wrth gwrs rydym yn edrych ymlaen i ddarllen ail argraffiad ´Pethau Patagonia´ . I goroni´r cyfan roeddwn yn ymfalchio i weld Helen a Hevin yn mwynhau cymryd rhan yn y Sioe ´Calon Arloesol´, Cenhedlaeth newydd o´r teulu. ´Ryda ni yma o hyd´.**




**Alwen Green**









Llongyfarchiadau i Hevin Green am ennill cystadleuaeth Cyfieithu yn Eisteddfod Y Bobl Ifanc eleni. Yn yr un modd roedd yn hyfryd clywed fod Sara BordaGreen wedi ennill y gystadleuaeth arbennig i bobl sy´n byw yn Ariannin yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni. Edrychwn ymlaen yn y rhifyn nesaf i glywed am gyfieithiad Dyddiadur Teulu Freeman gan Mary Green.



**Plant yr hen wladfawyr 1965**

Gildas Jones (Kansas),

Emma Austin de Williams,

Buddug Evans de Jones,

Cordeli Evans de Jones,

Milton Evans,

Edith Evans de itxassa,

Gwenonwy Berwyn de Jones Green)

Alice Hughes de Owen










Hyfryd iawn ddiwedd yr haf eleni fu derbyn newyddion da o Gymru fod Elinor Wigley yn arwain ymgyrch i gasglu arian i brynu telynau i'r Wladfa. Ers tair blynedd bellach rydw i wedi bod yn cynnal gwersi telyn yn Ysgol Gerdd y Gaiman ac mae cryn ddiddordeb wedi cael ei gynnau yn offeryn cenedlaethol Cymru a nifer o ddisgyblion yn dod i ddysgu sut i dynnu'r tannau. Achlysur braf iawn a oedd yn cyd-fynd a dathliadau dydd Gwyl Dewi y Wladfa fu croesawu Elinor a Gwenan Gibbard i'n plith i gynnal cyngherddau a throsglwyddo dwy delyn i drigolion Cwm Hyfryd. Ym mis Gorffennaf cludais innau delyn a brynwyd gan arian o'r un gronfa i'w defnyddio yn Ysgol Gerdd y Gaiman a deallwn fod dwy delyn arall ar ei ffordd yma hefyd. Defnyddiwyd telyn newydd Ysgol Gerdd y Gaiman yng nghyngerdd Gwyl y Glaniad yn Nhrelew wrth i Helen Mair Green berfformio tair hwiangerdd yn grefftus iawn i lond neuadd o bobol, gan gynnwys Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Rydym felly yn ddiolchgar iawn, iawn i Elinor am ei diddordeb ynom yma yn y Wladfa ac am ei chefnogaeth hi a'r holl garedigion a gyfrannodd tuag at y gronfa i sicrhau y bydd un agwedd o ddiwylliant Cymru yn parhau yma ym Mhatagonia.

Esyllt Nest Roberts

## Gwyddoniadur Cymru

Rhodd i Ysgol Gymraeg yr Andes

i gefnogi´r dysgwyr - plant ac oedolion

a´r athrawon.

Oddi wrth Gwyneth Edwards,Caerdydd



# O'r ysgolion...............................

## Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel

Dyma ni yn mwynhau bob math o weithgareddau gyda´n gilydd ac yn wir wedi croesawu llawer o ymwelwyr o Gymru i weithio gyda ni yn ystod tymor yr Hydref a´r Gaeaf.







Vicky ydw i. Dw i´n hoffi ysgrifennu a dwi´n hoffi Mathemateg. Mae Nia ac Emilia yn hoffi dod i´r dosbarth Cymraeg hefyd. Mae gennym ffrind newydd sef Iara sydd newydd ddod i´r dosbarth. Edrychwch ar ein llyfrau gwaith.













Rydym yn cael llawer o hwyl yn gwneud amrywiaeth o bethau yn y dosbarth. Pypedau - Modelau - Coginio - Peintio - Canu- Chwarae Gêmau a chael hwyl yn siarad Cymraeg. Rydym yn edrych ymlaen i symud i mewn i´r estyniad newydd yn y Ganolfan yn Esquel . Eleni bues i´n llwyddiannus yn cwblhau Arholiad Canolradd Cymraeg CBAC. Rwy´n hapus iawn. Marina Marcela Cid.

| | | |
|---|---|---|
| Enw – Oriana<br>Oed – 5<br>Dw i'n hoffi edrych ar yr awyr<br>Dw i'n hoffi bwyta pizza<br>Dw i'n hoffi porffor<br>Dw i'n hoffi mynd i'r parc<br><br>Dw i'n hoffi dydd Nadolig.<br> | Enw – Tomos<br>Oed – 5<br>Dw i'n hoffi sgio<br>.Dw i'n hoffi bwyta pasta a ketchup<br>Dw i'n hoffi lliwiau amryliw<br>Dw i'n hoffi mynd i'r pwll nofio<br>Dw i'n hoffi´r haul a dw i´n hoffi´r haf<br> | Enw - Fermin<br>Oed - 5.<br>Dw i'n hoffi bwyta milane-sas cyw iar .<br>Dw i'n hoffi lliw oren<br>Dw i'n hoffi mynd i Buenos Aires<br><br>Dw i'n hoffi diwrnod y plant<br> |

# Ysgol y Cwm











Mae plant Ysgol y Cwm yn cael profiadau uniongyrchol, gweithgareddu ymarferol a thrwy chwarae pwrpasol yn dysgu'n weithredol yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth yma.

Bu'r disgyblion yn dilyn themau amrywiol ac felly cyflwynir y Gymraeg mewn ffordd cyffrous er mwyn eu hysgogi a rhoi'r dechrau gorau posib i ateb gofynion pob unigolyn. Gwelwch oddi wrth y lluniau fod digon yn mynd ymlaen yn gyson.

Gwelir fod adeilad yr ysgol newydd yn dod yn ei flaen yn dda..









## Dod i adnabod dosbarth plant o Drevelin

Carol dw i. Dwi'n byw yn Nhrevelin

Beth nest ti wythnos diwethaf?

Dydd Llun: Nes i astudio Mathemateg.
Dydd Mawrth: Nes i nofio.
Dydd Mercher: Nes i gysgu.
Dydd Iau: Nes i fynd i'r ysgol.
Dydd Gwener: Nes i chwarae tenis.
Dydd Sadwrn: Nes i ddringo coeden.
Dydd Sul: Nes i feicio.

Alejo dw i. Dwi'n byw yn Nhrevelin

Beth nest ti wythnos diwethaf?

Dydd Llun: Nes i gysgu.
Dydd Mawrth: Nes i fwyta afal.
Dydd Mercher: Nes i chwarae animal jam.
Dydd Iau: Nes i astudio Mathemateg.
Dydd Gwener: Nes i ddawnsio gwerin.
Dydd Sadwrn: Nes i fwyta asado.
Dydd Sul: Nes i ysgrifennu.

Luisiana dw i. Dwi'n byw yn Nhrevelin

Beth nest ti wythnos diwethaf?

Dydd Llun: Nes i fwyta afal.
Dydd Mawrth: Nes i fwyta byrger.
Dydd Mercher: Nes i chwarae ta-te-ti.
Dydd Iau: Nes i chwarae tenis.
Dydd Gwener: Nes i fwyta alfajor.
Dydd Sadwrn: Nes i fynd i benblwydd.
Dydd Sul: Nes i fwyta cacen.

# Cyfweliad gyda Merched Esquel



Pwy wyt ti?
Lilian Harris Jones dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n hapus.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw yn Stryd Libertad, Esquel.
Dyma ychydig o gefndir Lilian
Ces i fy ngeni yn Nhrelew. Es i ysgol 123 yn Nhrelew,wedyn Colegio Nacional de Trelew. Dechrau yn 1966 a gorffen yn 1970.
Bues i´n dawnsio gyda´r plant adeg dathlu Canmlwyddiant y Wladfa yn 1965 roeddwn yn ddeuddeg mlwydd oed. Mair Davies o Drelew oedd yr athrawes.
Catherine Thomas oedd Nain ac yn dod o Llangollen. Roedd yn byw yn Nhy´r Halen. Gweithiais yn Esquel fel rhe-olwraig sefydliad . Dw i´n briod gyda Gustavo, priodais yng nghapel Lago Futalaufquen ym mis Tachwedd . Mae gen i ddau blentyn : Cinthia a Victor. Mae Cinthia yn feddyg a Victor yn gyfreithiwr. Dw i´n hoffi mynd i ddysgu Cym-raeg ar ddydd Llun a dydd Mercher. Dw i´n hoffi helpu pobl sal a dw i´n gweithio gyda´r eglwys ar tad Rodolfo Sagrada Familia. Dw i´n hoffi cerdded a chanu, Fy hoff ganeuon ydy Calon Lân a Sosban Fach.
Dw i´n hoffi darllen hefyd , llyfrau Jorge Luis Borges ac Antonio Machado.
Dw i´n hoffi pob math o fwyd sef bara menyn a jam,teisen ddu, teisen afal, pizza ac Asado wrth gwrs.

Dyma Valeria,Ilda a Lilian.

Pwy wyt ti?
Ilda Austin dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n hapus hefyd.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw ar fferm. 1 leguo 32.
Dyma ychydig o gefndir Ilda.




Ces i fy ngeni yn Esquel. Es i ysgol rhif 108 ar fferm. Ro ni´n 8 oed. Wedyn ar ôl gadael yr ysgol yn 14 oed bues i´n gweithio ar fferm ac yna priodi. Mae gen i chwech o blant Toni,Pablo,Paul, Dana,Alicia a Brian.
Mae gwartheg,defaid,ieir,twrciod ac un ceffyl ar y fferm.
Dw i´n hoffi Matuca´r ci.
Mae llawer o gathod gen i.
Dw i´n hoffi cerdded, coginio a darllen. Dw in hoffi bwyta empanadas cig ac asado. Dw i´n yfed mate yn y bore gyda Alicia fy merch. Dw i´n hoffi siarad Cymraeg gyda Lilian, Valeria ac Eluned. Mae nhw´n ffrindiau da.

Pwy wyt ti?
Valeria Ferrá dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n ardderchog.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw yn Dante Brozzi, Esquel
Dyma ychydig o gefndir Valeria. Ces i fy ngeni yn Esquel. Es i ysgol Salesiano. Dechrau yn 1965 a gorffen yn 1971. Bues i´n canu gyda´r plant bach yn y côr yn Gymraeg a nawr dw i´n hoffi canu gyda côr Seion. Gweithiais i mewn ffatri gyda fy ngŵr am bedwar deg dau o flynyddoedd. Mae gen i bedwar o fechgyn Louis, Marcus, Joseff a Mattias. Roedd fy nain Winifred Williams yn dod o Gymru. Dw i´n hoffi canu,darllen nofelau am Gymru a nofio. Dwi´n hoffi asado a dw i´n casau pethau melys.

# Diolch










Diolch i bawb sydd wedi cefnogi trwy godi arian i Ysgol y Cwm. Rydym yn wir ddiolchgar am yr holl ad-noddau hyfryd oddi wrth Gyngor y Dre ac oddi wrth ymwelwyr lu o Gymru.

Caf groeso mawr yn wythnosol yn Ysgol 24 Luis Jorge Fontana, Esquel. Mae´r Brifathrawes Sandra Teresa Simeoni yn gefnogol iawn. Mae Diana Mariel Jenkins yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Braf yw gweld y disgyblion yn dangos diddordeb aruthrol.

Gwelwch luniau amrywiol o´r grwpiau gwahanol sydd eisoes wedi cael gwersi yn ystod y flwyd-dyn yma. Gwelir hefyd lun o´r Athro Robert Owen Jones tra ar ymweliad yma rai blynyddoedd yn ôl. Hyfryd gweld enghraifft o waith Catalina Lecuona Nardo.

Roedd yn bleser cael bod yn rhan o ddathliadau´r ysgol adeg Gŵyl y Glaniad a chlywed cyflwyniadau amrywiol ac eitemau graenus iawn. Diolch i Cristine Jones am anerchiad a roddodd flas pellach i´r holl ddisgyblion o hanes yr ymfudwyr cyntaf. Bore arbennig iawn.

Eluned Jones










Exito

CATALINA
LECUONA
NARDO.

Ddydd 6 Gorffenaf

Catalina ydw i a dw i'n byw yn Esquel. Dw i'n un deg un oed a dw i'n mynd i'r ysgol cynradd. Dw i'n hoffi mynd ysgol achos dw i'n mynd dim ond yn y bore. Wedyn, dw i'n gwneud llawer o bethau yn y prynhawn. Dw i'n hoffi dawnsio, mynd am dro gyda fy ffrindau a mynd i ymarfer dawnsio. Dw i'n helpu mam hefyd, achos mae un chwaer bach gyda fi un frawd fawr gyda fi.













Dylanwad  Operau  Sebon.

Nid wyf yn rhy hoff o operau  sebon o gwbl. Y mae rhai yn wreiddiol o wledydd  canol America yn gwneud i mi chwerthin o achos yr enwau dwbl y  maent yn arfer eu defnyddio, ond ar ôl ychydig  o fisoedd yr ydym yn eu clywed ar y stryd a rhai  ohonynt wedi cael eu rhoi i rhyw blentyn neu gilydd a anwyd yn ystod y cyfnod cafodd yr opera sebon ei ddarlledu.

Fel bum yn dweud,,fel arfer nid wyf yn cymryd diddordeb ynddynt o gwbl, ond eleni mae un wedi fy nharo yn fawr, a dyna´r unig yr wyf yn gwylio pob nos  Lun  i nos Iau.

Opera Sebon o wlad estron ydy o Arabiad Saudi, o gategori ramantus, gydag actorion da sy´n gallu dylanwadu ar eich teimladau.

Seiliwyd yr hanes ar lyfr enwog iawn o´r enw ¨Las mil y una noches¨. Maent yn hanesion hollol gredadwy.  Yn fy marn, bydd dylanwad cryf ar bobl ar ei hôl..

Yr wyf wedi clywed rhai yn galw Onur ( enw´r prif gymeriad ) i´w gi neu gath yn barod.

Ha .ha.ha.

Gladys Jones

## Chwilair Anifeiliaid

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | w | n | i | ng | e | n | r | a | f | n |
| r | d | l | y | d | f | e | w | j | t | u |
| o | a | s | h | g | w | i | b | s | r | a |
| c | e | ff | y | l | t | d | a | f | a | d |
| o | l | s | e | p | b | r | c | g | h | e |
| d | w | c | t | c | n | o | w | p | l | r |
| e | l | i | ff | a | n | t | g | h | a | y |
| i | d | r | h | n | j | g | dd | f | s | n |
| l | b | l | f | o | p | l | s | y | t | c |

cwningen
neidr
dafad
crocodeil
eliffant
ci
aderyn
ceffyl

# Gŵyl y Glaniad 2015



Er i mi fod mewn sawl dathliad ym Mhorth Madryn ers dod i Batagonia roedd eleni yn flwyddyn fawr ac roedd llawer o bethau ymlaen.



Seremoni swyddogol y Llywodraeth
Roedd digon o drafod wedi bod cyn y diwrnod oherwydd bod Arlywydd yr Ariannin yn mynd i ddod a Phrif Weinidog Cymru mewn blwyddyn etholiadau yn y wlad. Roedd rhaid mynd i gynrychioli'r Cymry ond roedd yn brofiad swreal bod mewn campfa yn llawn cefnogwyr y llywodraeth a ni gyda diddordeb diwylliannol yn y canol ond yn sicr roedd y sioe 'Corazon Pionero' neu ' Calon Arloesol' yn Gymraeg yn werth ei gweld gyda'r artistiaid lleol ochr yn ochr ag actorion o Buenos Aires a sioe llawn cyffro.
Cyngerdd Gala yn Nhrelew
Roedd Theatr Sbaenaidd y ddinas dan ei sang er mwyn i'r gynulleidfa glywed artistiaid lleol a El Surco Duo o Drevelin, yn adrodd hanes y Wladfa mewn ffordd emosiynol iawn gyda'r diweddglo gwefreiddiol o blant sef dyfodol yr iaith a'r diwylliant yn canu nerth eu calonnau.
28 Gorffennaf 2015
Codi yn gynnar i fynd i weld y seremoni wrth gerflun y Gymraes ac rhyw ffordd yn cael fy ngwahodd i gymryd rhan wrth wthio un o'r bareli i gerflun yr Indian wrth yr ogofau! Yna gweld lluoedd yn aros i groesawu'r rhai oedd yn cynrychioli'r mewnfudwyr cyntaf ddod at y lan mewn cwch rhwyfo.
Wedyn y cyfarfod rhwng y ddau ddiwylliant yr Indiaid yn cyfnewid gyda'r Cymry. Areithiau gwleidyddol wedyn gan Martin Buzzi, Pennaeth y Dalaith a Carwyn Jones Prif Weinidog Cymru.
Cymanfa Ganu wedyn mewn neuadd chwaraeon ysgol ac a dweud y gwir anodd iawn oedd teimlo yn rhan o rywbeth mewn lle mor fawr.
Rhuthro i Gapel Moriah er mwyn cofio Lewis Jones bu yn sylfaenydd y ddinas sydd rwan yn dwyn ei enw cyn symud ymlaen i Gaiman lle roedd te bendigedig mewn sawl capel yn aros am y sychedig.
Cyngerdd mawreddog i gloi'r diwrnod a champfa Gaiman yn llawn a ninnau yn gorfod sefyll ar y balconi er mwyn gweld yr artistiaid lleol.

Teithio yn ôl wedyn ar fys dros nos er mwyn bod yn barod i groesawu Carwyn Jones yn Nhrevelin gan ei fod wedi penderfynu derbyn cynnig y Buzzi i ddefnyddio ei awyren i deithio draw er mwyn ymweld a'r Andes o leiaf.



→

29 Gorffennaf 2015

Erbyn 14.00 roedd cynrychiolwyr cymdeithasau a mudiadau Cymraeg a Chymreig yn Amgueddfa'r felin yn Nhrevelin er mwyn croesawu Prif Weinidog Cymru ac roedd yn awr fach digon pleserus er yn siomedig nid oedd ganddo amser i ymweld â'r ysgol newydd Ysgol y Cwm.



31 Gorffennaf 2015

Cyngerdd yn Nhrevelin, cinio yn Esquel a digon o frysio rhwng un lle a'r llall!

1 Awst..ac mae'r dathlu yn parhau!

Roedd y noson yng nghampfa Esquel yn noson wych gan ddangos talentau'r dref a' r ardal ar eu gorau gyda dawnsio teimladwy, canu yn Sbaeneg ac yn Gymraeg, hen ac ifanc ac yn digwyddiad oedd yn talu teyrnged teilwng i'r ymfudwyr cyntaf.

Taith Clwyd Theatr Cymru 'Mimosa'

Er bod nifer o ymwelaidau wedi bod eleni yn dathlu'r Canmlwyddiant a Hanner teimlaf fod rhaid enwi'r daith yma fel enghraifft o rywbeth arbennig sef pobl ifanc Cymru a rhai ffodus o'r Wladfa, Esquel, yn cydweithio i adrodd hanes sydd yn perthyn i'w dwy wlad. Roedd y sioe yn hollol broffesiynol diolch i law grefftus Tim Baker ac roedd yn brofiad emosiynol i bawb: criais i wrth weld Mike Winter a Ryan Lloyd ochr yn ochr a'u cyfoedion yn actio a chanu ar ben y llwyfan ac adrodd yr hanes mewn ffordd mor fyw.

Os ydyn ni am weld y Wladfa yn dathlu ei Dau ganmlwyddiant mae eisiau mwy o brosiectau felly sydd yn cynnwys pobl ifanc o ddwy ochr Mor yr Iwerydd yn dod at ei gilydd mewn diwylliant a chyfeillgarwch i greu cysylltiadau fydd yn parhau i'r dyfodol.



Diolch i bawb fu tu ôl i'r dathliadau i gyd ac ymlaen a ni at gyffro ail hanner y flwyddyn!

Clare Vaughan




Noddwyd y rhifyn yma o 'Llais yr Andes' gan La Barra, Esquel.

Diolch iddynt am eu parodrwydd i gefnogi ein papur bro ni.



## ´Y MIMOSA´ Sioe Gerdd Theatr Clwyd ac Urdd Gobaith Cymru. **Profiad arbennig i´r ddau ohonom**

Ces i wybod fy mod i wedi cael fy newis i gymryd rhan yn y prosiect y llynedd. Wnaeth y newyddion llenwi fy nghalon! Ffoniodd fy ffrind, Ryan, i ddweud ei fod o'n mynd hefyd. Am sawl mis bues i'n disgwyl am y caneuon i´w dysgu, ac yna gwneud ymdrech i godi arian. Wnes i weithio yn dysgu ffidil, mewn grwpiau a gyda dysgwyr preifat, a threfnais i a fy nhad gyngerdd, gyda help cerddorion lleol.

Tan cychwyn y prosiect, o'n i'n teimlo nad oeddwn yn derbyn yr holl wybodaeth yn glîr iawn. Wnaeth hyn godi amheuon arna i, a hyd yn oed ystyriais i aros yma. Serch hynny, es i ymlaen, ond gyda disgwyliadau eitha isel.

Cyrhaeddais i i Gymru deg diwrnod cyn dechrau, er mwyn gweld y ddinas ble o'n i'n byw, Bangor, a gweld fy mrawd sy'n byw yna. Roedd yn hollol emosionol bod yna eto, achos o'n i ddim yn disgwyl mynd yn ôl i Gymru mor fuan ar ol dod nôl i'r Ariannin.

Beth bynnag, wnaeth y prosiect ddechrau, ac ar y dyddiau cyntaf o'n i dipyn ar goll! Do'n i ddim yn nabod neb, heblaw Ryan, ac roedd fy Nghymraeg ar lafar yn ansicr iawn. Wnaethon ni dderbyn y sgript i dechrau gweithio, ond do'n i ddim yn deallt y stori, na beth o'n i ddweud nac actio!

Ond penderfynais i baswn i'n cymdeithasu, ymlacio, a trio mwynhau. Ac yn syth, sylweddolais i mod i'n hollol anghywir am beth o'n i'n disgwyl! Dechraeais i gymdeithasu mewn ffordd neis gyda'r Ieuenctid Cymraeg; o'n i'n mwynhau yr ymarferion a'r sesiynau canu; a gyda help y fersiwn o´r sgript yn Saesneg, wnes i ddeall yr holl stori a beth o'n i'n actio.

Fel na aeth y dyddiau heibio, a phob dydd o'n i'n teimlio yn well ymhlith y grwp. Ro'n i'n deall yn well a hefyd ro'n i'n gallu siarad yn fwy rhugl. Yn araf deg, o'n i'n creu bondiau gyda'r criw. Buodd yn brofiad hyfryd cael byw am wythnos gyfan yn nhy hogyn o'r criw yn Ninas Mawddwy. Roedd yn hyfryd aros gyda'r teulu, a dod i adnabod y diwylliant Cymraeg a phobl mor hyfryd fel teulu Harri.

O ran y gwaith actio wnaethon ni, buodd o'n brofiad enfawr. Dw i erioed wedi actio o'r blaen, ond roedd diddordeb mawr gyda fi ers o'n i'n blentyn bach. Roedd yr ymarferion yn hwyl, yn ddwys, a weithia'n flinedig iawn. Ond hynny wnaeth y canlyniadau mor drawiadol. Roedd y gynulleidfa wrth ei bod, hyd yn oed y bobl yn yr Ariannin nad oedd yn deall yr Iaith!

Roedd y profiad actio, felly, yn anhygoel, ond yr uchafbwynt o'r bennod hon o fy mywyd oedd cael y profiad i nabod mwy o'r Cymry fel cymuned, cymdeithasu mor agos gyda'r ifanc prydferth a chreu bondiau fydd yn parhau.

Diolch i Clare am ein tywys o gwmpas y Dyffryn a'r Andes a dangos nifer o lefydd diddorol i fy ffrindiau newydd o Gymru.

Ond dydy hyn ddim yn gorffen yma. Mae Cymru yn fy ngalw. Dwi'n sicr bod yn rhaid i mi fynd i astudio yna, a pharhau i ddefnyddio y drws, sef yr iaith, i ddod i mewn i'r gymuned hyfryd a chyfoethog hon.

Michael Winter, Esquel







Dyn ni wedi cael amser gwych yng Nghymru ac roedd pawb yn ein croesawu trwy'r amser. Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i ddeall a dychmygu'r golygfeydd i allu actio pob cymeriad yn y Sioe. Dw i'n ddiolchgar i'r grwp anhygoel a hefyd dw i wedi gwneud ffrindiau am oes er fy mod i'n cael trafferth i gyfathrebu gyda'r ychydig Gymraeg oedd gen i ar y dechrau.

Ar ôl dwy wythnos o ymarfer yn galed llwyddo ni berfformio heb broblem. Buodd yn brofiad gwerthfawr i ni ar ôl i ni weld y bobol yn cymeradwyo ac yn sefyll ar eu traed. Mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy. Diolch am y cyfle arbennig yma.

Ryan Lloyd Esquel

Erthygl i Lais yr Andes gan Dylan Williams

Anodd iawn yw ceisio crynhoi mewn geiriau un o brofiadau gorau fy mywyd fel actor ac yn wir fel person. Anodd yw credu fy mod i mond ychydig wythnosau yn ôl wedi bod ym mhen arall y byd gyda chriw o Gymry a dau o hogia ifanc o Esquel yn gwneud sioe o'r enw 'Mimosa' mewn lle o'r enw Patagonia.

Nôl ym mis Chwefror eleni cefais y fraint o gael fy ngwahodd i gyfweliad âr cyfarwyddwr Tim Baker, Clwyd Theatr Cymru ar gyfer prosiect newydd 'Mimosa'. Roeddwn i'n barod yn llawn cyffro i gael dal i fyny gyda Tim gan ei fod yn gyfarwyddwr a oedd wedi rhoi sawl cyfle i mi yn y gorffennol ac fel cyfarwyddwr a ffrind wedi ymddiried a dangos ei ffydd ynof fel actor wrth i ni gydweithio ar nifer o gynyrchiadau yn y gorffennol ar gyfer y cwmni theatr arbennig hwn yn y Wyddgrug.

Fedrwn i ddim peidio â chyffroi fwyfwy wrth i Tim egluro cefndir ei weledigaeth ar gyfer y prosiect newydd yma. Eglurodd am ei daith hudolus i Batagonia bedair blynedd yn ôl ac am ysbrydoliaeth y darn sef llun o fedd Kate Jones 'un o'r fintai gyntaf'. Darganfyddodd ei henw ar restr teithwyr y Mimosa yn ogystal â'i gwr William Jones 'Y Bedol' a'u dwy ferch fach Mary Ann a Jane. Yna daeth hi'n amlwg iawn fod blynyddoedd o waith ymchwil pellach wedi cael ei wneud i blethu at ei gilydd hanes Kate a William a nifer fawr eraill o'r teithwyr gan gynnwys Rachel ac Aaron Jenkins er mwyn creu byd a hanes y fintai gyntaf a fydda'n cychwyn gyda'u penderfyniad i adael eu cartrefi yng Nghymru am byth a chychwyn ar daith anhygoel o ddociau Lerpwl ar long cliper fach yn 1865 i le yn Ne America o'r enw Patagonia.

Ddiwedd mis Ebrill dechreuais fy niwrnod cyntaf yn y stafell ymarfer yn Theatr Clwyd a'r ôl cael ar ddeall fy mod am fod â'r fraint o fod yn rhan o'r prosiect hwn. Yn ymuno gyda mi yn yr ystafell ymarfer roedd fy nghyd actorion Hanna Jarman, Tom Blumberg a Bethany Gwyn. Hefyd yn ymuno gyda ni a Tim yn yr ystafell ymarfer roedd Emyr John 'cyfarwyddwr cynorthwyol' un sydd raid diolch yn fawr iddo am ei waith didwyll gyda Tim a ni fel cast drwy'r broses ymarfer. Braf hefyd oedd bod nôl mewn ystafell ymarfer gyda'r cyfansoddwr arbennig Dyfan Jones. Roedd ei ganeuon hudolus gyda geiriau gan Tudur Dylan Jones am brofi unwaith eto i fod yn guriad calon y ddrama hon ac am gyfrannu yn ddirdynnol i sail sgript chwareus o gymhleth Tim Baker.

Ar ôl y broses ymarfer wyllt o brysur yn paratoi'r ddrama yng Nghymraeg a Saesneg mewn cwta tair wythnos a hanner, dyma gychwyn teithio'r ddrama o amgylch Cymru, a chyda pob perfformiad daeth hi'n amlwg iawn, o'r adwaith gwresog ym mhob ardal o Gymru, ein bod yn rhan o brosiect arbennig iawn. Yna yn ôl i'r Wyddgrug i berfformio'r sioe am bedair wythnos, gyda pherfformiadau gyda'r hwyr yn ogystal ag ymweliadau cannoedd o blant o bob rhan o ogledd Cymru a ddaeth i weld y sioe fore a phnawn.

Ymlaen wedyn i wersyll Glanllyn i gyfarfod un ar bymtheg o Gymry ifanc a dau Gymro ifanc o Esquel, Mike Winter a Ryan Lloyd. Roedd Clwyd Theatr Cymru 'Theatr ar gyfer Pobl ifanc' wedi creu partneriaeth gyda'r Urdd ar gyfer y rhan nesaf o'r prosiect. Partneriaeth a oedd i amlygu ei hun yn un ffrwythlon dros ben, ac yn dilyn y prosiect hwn, partneriaeth sydd wedi cadarnhau ei hun fel rhwydwaith hollol angenrheidiol yn gelfyddydol ac yn genedlaethol ar gyfer y dyfodol y Gymraeg a'n pobl ifanc ym mhob cwr o'r byd. Felly mawr ein diolch i Glwyd Theatr Cymru a'r Urdd am y weledigaeth hon, ac i Iestyn a Bethan 'swyddogion gofal yr Urdd' am eu holl gwaith, ysbryd a hiwmor ar y daith. A mawr ein diolch i'r ieuenctid i gyd am eu hymrwymiad llwyr, eu hymdrech diffuant a'u hwyl drwy'r broses.

Wrth feddwl am y prosiect, difyr a phwysig oedd cofio ein bod yn y Bala yn ymarfer. Bala lle y gadawodd William a Kate Jones eu cartref am byth i ddilyn eu breuddwyd am fywyd gwell ym Mhatagonia. Ardal sydd hefyd yn gyfoeth o'n hanes fel Cymry gan ein bod tafliad carreg i ffwrdd o ddŵr mawr dwfn hefyd wrth inni gofio Tryweryn. Felly dyma fynd ati mewn cwta bythefnos i ail ymarfer y sioe gyda'r ieuenctid, ac o ddydd i ddydd yn yr ymarfer gwylio a sylwi sut roedd y stori anhygoel yma yn cydio ynddynt hwythau yn union fel yr oedd hi wedi cydio ynom ni fel cast proffesiynol a chynulleidfaoedd Cymru yn barod.

Dau berfformiad cyntaf i ni a'r ieuenctid wedyn yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod, gyda Theatr y Maes yn orlawn, a phawb ar eu traed yn eu dagrau mewn canmoliaeth. Yr un adwaith hefyd yn Theatr y Chapter, Caerdydd, gyda'r ieuenctid a phawb erbyn hyn yn gweld pwysigrwydd y ddrama hon.

O'r diwedd ar ddydd Sul y 9fed o Awst dyma gychwyn y bennod nesaf pwysig y prosiect hwn, a mynd ar daith i Dde America, (nid ar long) ond hedfan i Buenos Aires ac yna ymlaen i Batagonia! Dyma gyrraedd Trelew yn gyntaf, yna Porth Madryn a Gaiman. Pedair sioe yn yr ardaloedd hyn gydag adwaith nad oedd neb yn ei ddisgwyl. Croeso anhygoel gan yr holl gymuned yma a mawr ein diolch. Pawb ar eu traed yn eu dagrau mewn canmoliaeth a theimlad ein bod ni wedi dod adref gyda'r hanes. Wrth gwrs roedd hi'n bwysig dweud yr hanes hwn i bawb, ond roedd pawb yn eu calonnau yn gwybod fod yr adwaith a dderbyniwyd yn y trefi hyn ym Mhatagonia yn wahanol rywsut. Yr un oedd yr adwaith gan y Cymry, Archentwyr Cymraeg a di-Gymraeg a disgynyddion y fintai gyntaf yn y gynulleidfa gan fod pawb yn gweld y darluniau yn yr arddull storïol ac yn teimlo'r don emosiynol a gyflwynwyd yn y darn. Roeddem ni'n dweud hanes y Cymry ym Mhatagonia wrth y Cymry ym Mhatagonia, a thrwy wneud hynny fel y dywedodd Tim Baker, ein cyfarwyddwr, 'gyda'r fraint o ddod yn rhan o'r hanes hwnnw' A ninnau fel cast bob diwrnod yn deall pwysigrwydd y darn hwn fwyfwy wrth inni gael ymweld â man y glanio ym Mhorth Madryn, yn sefyll ar y traeth yn canu ein hanthem ni i Batagonia. Gweld beddi nifer o'r disgynyddion yn Gaiman, gan gynnwys wrth gwrs bedd Kate Jones, ysbrydoliaeth y darn ac awen ein cyfarwyddwr Tim Baker.

Croesi'r paith wedyn a dwy sioe olaf ein taith yn Esquel a Trevelin, gyda'r croeso unwaith eto yn dwymgalon ac arbennig, a'r adwaith yr un mor bwerus ac emosiynol, a dagrau yn llygaid pawb ar y noson ddiwethaf pan ofynnwyd i ddisgynyddion y fintai gyntaf sefyll ar eu traed ar ddiwedd y sioe. Cymeradwyaeth iddynt hwy a phawb, cymeradwyaeth nad oeddwn i'n meddwl oedd am stopio, a Chymry ynghyd wedyn yn canu ein hanthem Hen Wlad fy Nhadau. Mawr ein diolch unwaith eto i'r gymuned yn Esquel a Threvelin.

Nid yn unig diwedd y daith yr oedd hi yn Esquel a Threvelin, ond roeddem hefyd yn dychwelyd dau o'u meibion. Ni ellir diolch digon i deuluoedd Mike Winter a Ryan Lloyd am eu croeso twymgalon a charedig a'u cefnogaeth enfawr i'r prosiect tra'n Esquel a Trefelin. Mawr ein diolch hefyd i'r ddau deulu am gael y fraint o gyfarfod a chyd weithio gyda'i meibion. Dau ddyn ifanc diymhongar, caredig, aeddfed a galluog. Dau ddyn ifanc yr ydym yn gobeithio eu bod wedi gwneud ffrindiau am oes gyda ni gyd. Diolch Mike a Ryan!

Felly beth nesaf? Wel gyda mawr ddiolch i'r gymuned Gymraeg yn Nhrelew, Porth Madryn, Gaiman, Esquel a Threfelin mae sôn fod angen i ni ddod 'nôl gyda rhagor o'r hanes. Felly mawr obeithiaf y cawn. Fe darodd hanes y darn hwn a'r neges gord yng nghalonnau pob un ohonom ac roeddem ni gyd yn teimlo wrth fynd am adref ein bod ni, gobeithio, wedi sbarduno rhyw adfywiad i'r fenter. Menter a gychwynnwyd gan y fintai gyntaf cant a hanner o flynyddoedd yn ôl wrth iddynt adael eu cartrefi am byth i greu Cymru newydd y tu hwnt i Gymru. Fe oroesodd y tua chant a hanner cyntaf yna daith erchyll am chwe deg diwrnod ar fwrdd llong cliper fechan o'r enw'r Mimosa. Ar ôl cyrraedd a darganfod dim ond llwch a diffaethwch fe benderfyno nhw barhau gyda'r fenter, i beidio troi yn ôl, i beidio ildio. Fe wnaethant ddyfrhau'r tir, adeiladu ysgolion, capeli, cymunedau a allai fyw, addoli a charu yn eu hiaith eu hunain, iaith Cymru mewn lle o'r enw Patagonia.

A dyma holl bwrpas y fenter gan Glwyd Theatr Cymru a'r Urdd yn fy marn i, dal drych i fyny drwy gelfyddyd i'r Cymry yng Nghymru a'r Cymry ym Mhatagonia fel ein bod yn parhau gyda'r fenter ac yn sylweddoli pwysigrwydd dyfodol yr Iaith. Mae yna rwydwaith wedi ei sefydlu yn awr rhwng Clwyd Theatr Cymru a'r Urdd gyda'r holl gymdeithas Gymraeg ym Mhatagonia, a thrwy'r berthynas a'r rhwydwaith yma gelli'r parhau a'r fenter. Rhaid dathlu menter y fintai gyntaf a'r cenedlaethau eraill ar eu hôl bob dydd, ac mae'n rhaid i'r cenedlaethau ohonom sydd yma nawr barhau. Achos i ddyfynnu geiriau sgript Tim Baker : "Mae'n rhaid i'r fenter barhau, mae'n rhaid i ni lwyddo, fedrwn ni ddim methu!"

I orffen rhaid diolch hefyd i dîm anhygoel Clwyd Theatr Cymru am eu cyfraniad hwy i ddod a'r sioe yma yn fyw. Diolch i Alex Robertson am ei gynllun llwyfan ac i'r adran dylunio a gwneuthur am eu gwaith. Diolch hefyd i adran gwisgoedd arbennig Clwyd Theatr Cymru. Diolch i'r tîm technegol yn y Theatr ac i ddau a fu gyda ni yn ystod y daith, Cassey Driver a Tom Biglin. A diolch enfawr i gydlynydd adran 'Theatr ar gyfer Pobl Ifanc' Clwyd Theatr Cymru, Nerys Edwards am ei gwaith diddiwedd.

Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i fy nghyd actorion, Hanna Jarman, Tom Blumberg a Bethany Gwyn am bum mis gwefreiddiol ac emosiynol, ac i'r holl ieuenctid am eich gwaith gyda ni.

Hoffwn orffen gyda geiriau Tim Baker a atseiniodd yng nghof pob un ohonom fel cast a phob aelod o'n cynulleidfa ar y daith wefreiddiol yma, yn y Wyddgrug, Môn, Pontypridd, Merthyr, Meifod, Mwldan, Felinfach, Lerpwl, Llanfair ym Muallt. O Gaernarfon i Gaiman, Trelew i Drevelin, Porth Madryn i Esquel.

"Dyfodol, Rhyddid, Gobaith, Ffydd!"

Tan tro nesaf Patagonia.

Diolch.

Dylan Williams 'Mimosa 2015'.







# Chwilair

## Ansoddeiriau

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| X | Y | D | B | A | I | N | P | C | U | Q | H | V | K | T |
| G | W | B | T | L | V | Q | Y | R | F | T | U | C | G | E |
| T | D | G | U | D | E | F | J | Y | F | R | D | L | Y | Z |
| T | A | B | K | Z | O | W | E | W | T | X | F | Q | H | S |
| O | N | O | X | E | V | C | O | H | S | K | K | O | G | G |
| X | F | C | T | Q | L | U | P | G | Y | F | L | T | W | Q |
| G | O | H | X | G | X | L | M | W | O | P | S | A | O | I |
| H | O | Y | B | M | E | Y | N | V | Z | L | R | W | Q | X |
| G | X | I | X | R | L | X | T | S | H | E | S | E | R | K |
| X | E | J | L | F | J | E | J | H | U | W | T | L | S | F |
| Z | O | E | Y | R | N | D | W | A | L | T | G | R | G | S |
| C | C | C | F | A | Y | L | H | O | Y | G | J | G | L | F |
| A | W | D | U | R | J | C | U | O | F | R | F | Q | F | A |
| Q | J | H | K | D | Y | L | L | W | E | R | D | V | D | K |
| C | Y | N | N | E | S | D | O | Y | V | M | F | P | P | F |

BLEWOG
CYNNES
HWYR
TAWEL

CYFLYM
CYRLIOG
OFNADWY
TENAU

CYFOETHOG
DREWLLYD
SYCH
TLAWD